Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Rhodri Talfan Davies,

Cyfarwyddwr

BBC Cymru

14 Ionawr 2019

Annwyl Rhodri,

Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi bod yn trafod cais Llyfrgell Genedlaethol Cymru am gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) ar gyfer Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru.

Yn ein cyfarfod ar 10 Ionawr, trafodasom y cynnig â Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd fod y BBC wedi ymrwymo cyllid i'r prosiect hwn, a fyddai'n golygu y byddai archifau'r BBC ar gael i bobl Cymru. Dywedodd hefyd y byddai'n cyfarfod â'r BBC o fewn y pythefnos nesaf i drafod lefel y cymorth.

Rydym yn deall bod y BBC wedi ymrwymo £20,000 yn flynyddol o 2024, ynghyd ag oddeutu £40,000 o gymorth o fath arall. A allwch gadarnhau'r ffigurau hyn?

Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo y dylai cymorth y BBC i sefydlu'r Archif yng Nghymru fod yn gymesur â'r cyllid ar gyfer Canolfan Archifau'r BBC yn Perivale, a gafodd £9 miliwn gan y BBC.

Mae nifer o faterion yr hoffai'r Pwyllgor fynd ar eu trywydd i gael dealltwriaeth well o rôl y BBC yn y cynnig hwn. Bydd angen i'r Llyfrgell Genedlaethol gymeradwyo'r cais am gyllid yn ei chyfarfod Bwrdd ym mis Chwefror er mwyn bodloni dyddiad cau CDL ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

O ystyried amseriad y cyfarfodydd hyn a dyddiad cau'r cais sydd ar ddod, a fyddech ar gael i ddod i'n cyfarfod rhwng 09.30 a 10.30 ar 24 Ionawr i drafod y materion hyn? Ymddiheuraf am y byr rybudd.

Yn gywir,

Bethan Sayed

Cadeirydd y Pwyllgor